*Ysgol Gyfun Gymraeg*

# BRO MYRDDIN

# HYSBYSEB SWYDD

*(AIL-HYSBYSEB)*

## Dirprwy Bennaeth

***(cytundeb llawn amser a pharhaol)***

**Ar gyfer mis Medi 2023**

Cyflog: L18-L22 (£65,530 – £75,584)

Mae'r Corff Llywodraethol yn edrych i benodi Dirprwy Bennaeth sy'n arweinydd ysbrydoledig a phrofiadol a fydd yn cyd-arwain yr ysgol i'r dyfodol yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar weledigaeth ac uchelgais ac yn addysgwr rhagorol ac angerddol. Bydd yn medru cydweithio'n effeithiol gyda'r holl rhanddeiliaid gan osod esiampl gadarnhaol i staff a disgyblion.

Mae'n hanfodol hefyd bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd â dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Ceir manylion am brif gyfrifoldebau'r swydd allweddol hon yn y pecyn cais ar Eteach.

Os yn dymuno cael sgwrs bellach neu i drefnu ymweliad â'r ysgol cysyllter â Miss Siân Thomas, Clerc y Corff Llywodraethol sian.thomas@bromyrddin.org

Am fanylion pellach a ffurflen gais gweler yr hysbyseb ar wefan Eteach.
Cais i gyrraedd Miss Siân Thomas, Clerc y Corff Llywodraethol sian.thomas@bromyrddin.org erbyn canol dydd **27ain o Chwefror**.

**Dyddiad cau:** Dydd Llun 27ain o Chwefror 2023 *(canol dydd)*
**Cyfweliadau:** Dydd Gwener 3ydd o Fawrth 2023

Cyflog: L18-L22 (£65,530 – £75,584)

*Mae'n ofynnol i bob deiliad swydd gael datgeliad manwl boddhaol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol*